



# Y COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO AR FYSIAU YSGOL

## I FOD YN DDIOGEL

- Pan fo'r bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio cyn mynd arno
- Ewch ar y bws ac oddi ar y bws yn ofalus – mae gwrthio neu ruthro'n gallu achosi damweiniau
- Dylech wastad wisgo eich gwregys diogelwch ac aros yn eich sedd am y siwrne gyfan – gallai achub eich bywyd
- Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd am y siwrne gyfan
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael
- Storiwch eich bag neu eiddo arall yn ddiogel ac allan o ffordd pawb
- Gadewch i'r gyrrwr yrru heb i unrhyw beth fynd â'i sylw yn ystod y siwrne
- Cymerwch ofal o'r bws
- Peidiwch byth â phoeri nac ysmegu
- Peidiwch byth â bod yn anfoesgar wrth ddysgwyr eraill na'r gyrrwr
- Peidiwch byth ag ymyrryd â theclynnau rheoli'r gyrrwr nac offer diogelwch
- Peidiwch byth â thaflu unrhyw beth yn y bws nac o'r bws
- Dim ond mewn argyfwng y dylech agor drysau neu allanfeydd y bws a pheidiwch â mynd oddi ar y bws nes ei fod wedi stopio
- Dylech wastad ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes dywedir wrthych am adael – ond gadewch y bws trwy'r allanfa fwyaf diogel os yw'n anniogel aros ar y bws
- Wrth groesi'r ffordd dewch o hyd i fan diogel lle gall yr holl yrwyr eraill eich gweld
- Dywedwch wrth athro/athrawes, rhiant neu'r gyrrwr am unrhyw ymddygiad gwael y byddwch yn ei weld